



**Diolch i chwaraewyr
y Loteri Genedlaethol**
**Thanks to National
Lottery players**

**CALON
TAF**



calontaf.co.uk  
CalonTaf@rctcbc.gov.uk

Llwybr Bywyd Gwyllt i Deuluoedd

Family Wildlife Trail

**Ewch am dro drwy'r parc
a bod yng nghanol byd natur!**

**Take a stroll through the park
and discover its wild side!**



**Parc Coffa
YNYSANGHARAD**
War Memorial Park
Pontypridd CF37 4PE

 **Trawsnewid Trefi
Transforming Towns**



Croeso i fyd natur ym Mharc Coffa Ynysangharad

Oeddech chi'n gwybod bod y parc yma'n frith o fywyd gwyllt? Bydd y llwybr dan sylw yn mynd â chi o amgylch yr ardaloedd lle byddwch chi fwyaf tebygol o weld anifeiliaid a chreaduriaid.

Defnyddiwch y canllaw isod i ddysgu am greaduriaid hynod ddiddorol y mae'r parc yn gartref iddyn nhw. Ydych chi'n barod am her? Sawl creadur byddwch chi'n ei weld?

HWYL A SBRI!
Os oes gyda chi unrhyw luniau hyfryd yr hoffech chi eu rhannu gyda ni, anfonwch e-bost neu eu rhannu gyda ni ar y Cyfryngau Cymdeithasol.
CalonTaf@rctcbc.gov.uk



Wrth i chi grwydro'r parc a chael gwybod ei hanes cyfoethog, cofiwch:

• Parchu'r parc:

Ewch â sbwriel adref gyda chi neu ei roi mewn biniau sbwriel. Cadwch at lwybrau neu fannau wedi'u tocio, gan fod gwair hir a 'pharthau gwyllt' yn gartrefi i lawer o greaduriaid na ddylid tarfu arnyh nhw.

• Rhannu'r parc:

Cadwch lygad am gerddwyr, rhedwyr a beicwyr.

• Trysorau byd natur:

Mae'n iawn i godi brigau, dail a blodau sydd eisoes wedi cwmpo i'r llawr, ond dylen ni adael y rhai sydd heb yn eu lle er mwyn i bawb allu parhau i edmygu eu harddwch.

I gael rhagor o wybodaeth am y parc:

www.rctcbc.gov.uk/ParcCoffaYnysangharadPontypridd



Welcome to the Wild Side of Ynysangharad War Memorial Park!

Did you know that we share this park with an incredible amount of wildlife? Our suggested route will take you around the areas where we believe you are most likely to spot our wild companions around the park.

Use the guide to learn about the fascinating creatures that call this park home. If you're up for a challenge - why not try to check off as many as you can?

As you explore the park and discover its rich history, please remember to:

• Respect the park:

Take litter home or place them in litter bins. Stick to paths or mown areas, as long grass and 'wild zones' are homes for lots of creatures that shouldn't be disturbed.

• Share the space:

Keep an eye out for walkers, runners and cyclists.

• Nature's treasures:

It's fine to pick up twigs, leaves and flowers that have already fallen to the ground, but we should leave those that haven't in their place so that everyone can continue to admire their beauty.

For more information on the park:

www.rctcbc.gov.uk/YnysangharadWarMemorialParkPontypridd

HAVE FUN!!
If you have any photographs you'd like to share with us, either email or tag us on Social Media.
CalonTaf@rctcbc.gov.uk



MAMALIAID | MAMMALS

Dyfrgwn Ewrasiaidd

Fe welwch chi nhw ar hyd glannau'r afon, yn bwyta pysgod, amffibiaid ac adar bach.

Drwy gydol y flwyddyn ond prin iawn cânt eu gweld



Eurasian Otter

Found along the riverbanks, feeding on fish, amphibians, and small birds.

Year-round but very rare to spot!

Draenogod

Gyda'r nos, fe welwch chi nhw'n edrych am fwydod a thrachfilod mewn ardaloedd glaswelltog.

Gwanwyn i'r Hydref



Hedgehogs

Nocturnal (night time) foragers searching for worms and insects in grassy areas.

Spring to Autumn

Gwiwerod Llwyd

Maen nhw i'w gweld yn ystod y dydd, yn dringo coed ac yn chwilioa am fwyd.

Drwy gydol y flwyddyn



Grey Squirrels

Seen during the day, climbing trees and foraging for food.

Year-round

Ystumod

Dyma anifeiliaid sy'n clwydo mewn coed ac sy'n hela am bryfed dros yr afon yn y cyfnos.

Gwanwyn i'r Hydref



Bats

Roost in trees and hunt for insects over the river at dusk.

Spring to Autumn

BWYSTFILOD BACH | MINI BEASTS

Pryfed ac Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn Bach | Insects & Invertebrates

Buwch Goch Gota

Chwilod bach, coch neu felyn gyda smotiau du.

Mawrth-Hydref



Ladybird

Small, red or yellow beetle with black spots.

March-October

Gwenynen Fêl

Peillwyr pwysig dros ben sy'n casglu neithdar.

Mawrth-Medi



Honeybee

A key *pollinator* (helps plants produce fruit or seeds) by collecting nectar.

March-September

Gwas y Neidr

Fe welwch chi nhw ger dŵr, ac mae cyrff hir ac adenydd symudliw gyda nhw.

Mai-Medi



Dragonfly

Found near water, with long bodies and shimmering wings.

May-September

Morghugyn

Pryfed bach sy'n gweithio mewn cytrefi. Fe welwch chi nhw'n aml ar lwybrau.

Ebrill-Hydref



Ants

Tiny insects working in *colonies* (groups), often seen on paths.

April-October

Ceillog y Rhedyn

Maen nhw'n adnabyddus am eu sŵn trydar a medrau neidio.

Mehefin-Medi



Grasshopper

Known for its chirping and powerful jumps.

June-September

Malwen

Creaduriaid sy'n symud yn araf. Mae cragen gyda nhw ac maen nhw'n dwlu ar ardaloedd llaith.

Mawrth-Hydref



Snail

Moves slowly with a shell, preferring damp areas.

March-October

Cacynen

Blewog a chrwn, sy'n hedfan o flodyn i flodyn.

Mawrth-Hydref



Bumblebee

Fuzzy and round, buzzing between flowers.

March-October

Pryf Lludw

Creaduriaid llwyd, segmentiedig sydd i'w gweld o dan gerrig neu foncyffion.

Trwy gydol y flwyddyn



Woodlouse

Grey, segmented critter found under logs.

Year-round

Tarianbryf

Pryfed gwyrdd neu frown gyda chorff siâp tarian.

Ebrill-Medi



Shield Bug

Green or brown insects with a shield-shaped body.

April-September

Chwilen

Creaduriaid o bob lliw a llun sy'n bwydo ar ddail.

Ebrill-Medi



Beetles

Come in different shapes and colours, feeding on leaves.

April-September

GLÖYNNOD BYW | BUTTERFLIES

Mantell Goch

Glöyn byw du, coch a gwyn trawiadol.

Ebrill-Medi



Red Admiral

Striking black, red, and white butterfly.

April-September

Mantell Paun

Coch llachar gyda smotiau ar yr adenydd.

Mawrth-Hydref



Peacock Butterfly

Bright red with eye spots on wings.

March-October

Adain Garplog

Oren gydag ymylon carpiog ac mae siâp coma nodedig o dan eu hadenydd.

Ebrill-Medi



Comma Butterfly

Orange with ragged edges; distinctive comma shape under wings.

April-September

Trilliw Bach

Oren gyda phatrymau du, a chânt eu gweld yn aml yn gorwedd yn yr haul.

Mawrth-Hydref



Small Tortoiseshell

Orange with black patterns, often seen basking in the sun.

March-October

Glöyn Gwyn Bach (Cabbage White)

Gwyn gyda dotiau du, sy'n dodwy wyau ar fresych.

Ebrill-Medi



Small White (Cabbage White)

White with black dots; lays eggs on cabbages.

April-September

Brith y Coed

Brown gyda smotiau hufen, sydd wrth eu boddau dan gysgod.

Ebrill-Hydref



Speckled Wood

Brown with cream spots, prefers shaded areas.

April-October

Mantell Dramor

Rhywogaethau mudol gydag adenydd oren a du.

Mai-Medi



Painted Lady

Migratory (moves from one place to another) species with orange-and-black wings.

May-September

Gleision Celyn

Glöynnod byw bach, lliw glas golau.

Ebrill-Medi



Holly Blue

Small, sky-blue butterfly.

April-September

Gweirlöyn y Ddôl

Adenydd brown gyda smotiau bach.

Mehefin-Medi



Meadow Brown

Brown wings with small eye spots.

June-September

GWYFYNOD | MOTHS

Gwalch-Wyfynd Helygls

Gwyfynd mawr, lliw pinc-a-gwyrdd.

Mai-Awst



Elephant Hawk-Moth

Large, pink-and-green moth.

May-August

Gwalchwyfynd Hofran

Gwyfynd sy'n hedfan yn gyflym yn ystod y dydd ac sy'n hofran fel colibryn.

Mai-Medi



Hummingbird Hawk-Moth

Day-flying, fast-moving moth that hovers like a hummingbird.

May-September

Teigr y Benfelen

Adenydd du gyda marciau coch llachar.

Mai-Gorffennaf



Cinnabar Moth

Black wings with bright red markings.

May-July

Gem Fforch Arian

Siâp 'Y' metelaidd ar adenydd brown.

Mehefin-Hydref



Silver Y

Metallic 'Y' mark on brown wings.

June-October

Bwrned Chwe Smotyn

Adenydd du gyda smotiau coch sy'n hedfan yn ystod y dydd.

Mehefin-Awst



Six-Spot Burnet

Black wings with red spots; flies during the day.

June-August

Cysylltiadau Hanesyddol

Amser maith yn ôl, tir fferm oedd yma ac roedd yn rhan o ystad fawr o'r enw Tŷ Ynysangharad.

Roedd teulu'r Lenoxes yn byw yma. Diwydianwyr oedden nhw a oedd yn gwneud cadwyni angori enfawr ar gyfer llongau! Cafodd Gwaith Cadwyni Brown Lenox ym Mhontypridd ei adeiladu yn 1818. Er mwyn creu'r cadwyni, roedd angen digonedd o lo a haearn, a oedd ar gael yn yr ardal yma.

Does dim llawer o'r hen ystad ar ôl heddiw, ond os edrychwch chi ar y wal frics felen o amgylch Canolfan Calon Taf, fe welwch chi ei bod hi'n dilyn yr un llinell â hen ardd lysiau'r ystad. Mae hyd yn oed yn cysylltu â darn bach o'r wal gerrig wreiddiol.

Historic Links

A long time ago, before this was a park, it was farmland and part of a big estate called

Ynysangharad House.

A family called the Lenoxes lived here, they were industrialists who made huge anchor chains for ships! They built their Brown Lenox Chainworks in Pontypridd in 1818 because the area had plenty of coal and iron, which they needed to make their chains.

Not much of the old estate is left today, but if you look at the yellow brick wall around Calon Taf, you will see it follows the same line as the estate's old kitchen garden. It even connects to a small piece of the original stone wall, a little piece of history still standing in the park!

Gwybodaeth am y daith gerdded yma:

Mae'r llwybr bywyd gwyllt 2.2km yma'n addas i deuluoedd a bydd yn cymryd tua 2 awr os byddwch chi'n oedi ym mhob man aros ar hyd y ffordd.

Mae'r llwybrau wedi'u cynllunio ar gyfer amrywiaeth o anghenion symudedd, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Ond sylwch fod y llethr sy'n arwain i'r ardd isel yn eithaf serth, a bydd angen defnyddio grisiau i fynd at y safle seindorf, er bod yr ardal o'i amgylch yn hygyrch.

Mae'r llwybr yn cynnwys cyfleuster toiled a chaffi. Cofiwch hefyd fod llefydd bwyta a diod ar gael yng nghanol y dref.

About this walk:

This 2.2km family-friendly wildlife trail takes approximately 2 hours if you pause at each stopping point along the way.

The pathways are designed to accommodate a range of mobility needs, including wheelchair users and pushchairs. However, please note that the slope leading into the sunken garden is quite steep, and access into the bandstand itself requires navigating steps, though the area around it is accessible.

The route includes one toilet facility and a cafe. Additional food and drink options are available just across the bridges in the town centre.

8 Y SAFLE SEINDORF

Gwlad y gân yw Cymru, yn wir!
Eisteddych ar fainc a gwranddo'n astud ar y côr o adar gwahanol. Mae bywyd yn braf!

BAND STAND

Wales being a land of song is not just true for us humans!
Pick a comfortable looking bench, and take a moment to appreciate the performance that a whole choir of different birds give us- aren't we lucky?

Mynediad i'r Parc

Access to the Park

Prif Gatiau
i Stryd y Bont

Main Gates
To Bridge Street

Gatiau Cerddwyr
i Stryd y Bont

Pedestrian Gates
To Bridge Street

Pont Dyffryn Taf
i ganol y dref/ Stryd Taf drwy Lys Cadwyn (Llyfrgell)

Taff Vale Bridge
To Taff Street via Llys Cadwyn (Library)

Pont M&S
i Borth y De, Stryd Taf a Stryd y Felin

M&S Bridge
To Southern Gateway, Taff Street and Mill Street

Gât Llwybr Taith Taf
i Drefforest ar hyd Llwybr Taith Taf

Taff Trail Gate
To Treforest via the Taff Trail

Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

National Cycle Network

Llwybr Celtaidd 4 The Celtic Trail

Llwybr Taf 8 Taff Trail

Panel Gwybodaeth

Information Panel

Postyn Sain Listening Post

Toileddau Toilets

Chwarae'r Lido Lido Play

Swyddfa'r Ceidwad Cymorth Cyntaf Rangers Office First Aid

Caffi Cafe

Lido Pontypridd Lido Pontypridd
Lido Cenedlaethol Cymru National Lido of Wales

Pafiliwn Criced Cricket Pavilion

Lawnt Fowlio Bowls Green

Ardaloedd Bywyd Gwyllt Wild Zone

Ardal Ymarfer Corff i Gŵn Dog Exercise Area



Mae modd clywed llawer o adar hefyd yn hedfan o amgylch y parc. Wrth eich boddau'n gwyllo adar? Ewch i Ganolfan Calon Taf i nôl Pecyn Gwyllo Adar.

Many birds can also be heard whistling and flying around the park- pick up Calon Taf's Bird Spotting Pack if you're an avid Bird Spotter.

1 CALON TAF

Roedd yr ardal yma'n wreiddiol yn rhan o ardd lysiau Tŷ Ynysangharad ond mae bellach yn gartref i'n canolfan treftadaeth a dysgu.

Ewch i fwynhau ein gardd a'n planwyr. Edrychwch ar y gwesty chwilod a gweld beth arall y mae Calon Taf yn gartref iddyn nhw.

This area was originally part of the kitchen garden of Ynysangharad House but is now home of our heritage and learning centre.

Explore our garden and planters. Have a look at the bug hotel and see what else has made a home in Calon Taf.



7 EVAN JAMES + JAMES JAMES

Mae'r cerflun yma'n coffáu'r tad a'r mab a gyfansoddodd "Hen Wlad fy Nhadau". Enw gwreiddiol yr anthem oedd "Glan Rhondda".

Cymerwch eiliad i werthfawrogi'r natur ryfeddol o'ch cwmpas a ysbrydolodd ein hanthem.

This statue commemorates the father and son who created the Welsh National Anthem "Hen Wlad fy Nhadau", which was originally called "Glan Rhondda" (Banks of Rhondda).
Take a moment to appreciate wondrous nature around you that inspired our joyous anthem.

6 PONT DYFFRYN TAF

Mae'r bont yma'n cynnig golygfa wych o ddau ben yr afon. Yma mae modd gweld pont eiconig William Edwards sydd wedi sefyll fel symbol o Bontypridd ers 1755.

Gwrandewch yn astud - ydych chi'n clywed y dyfngi yn yr afon islaw?

TAFF VALE BRIDGE
This bridge offers a fantastic view up and down the river. From here you can see the iconic William Edwards Bridge which has stood as a symbol of Pontypridd since 1755.

If you listen closely here and are very lucky, you might hear the chirps and squeaks of an otter from the river below!

5 MEINCIAU'R LIDO

Rydych chi tua hanner ffordd ar hyd eich taith; beth am gymryd seibiant i fwynhau'r natur o'ch cwmpas?

Mae Caffi Lido gerllaw, yn ogystal â tholedau sydd yr ochr arall i'r Lido!

LIDO BENCHES

You're about half way along your journey; why not take a break to enjoy the nature that surrounds you?

Caffi Lido is nearby, and if nature calls - the public toilets are just on the other side of the Lido!

Gogledd North De South

TAITH TAF

Mae Llwybr Taith Taf, sydd 55 milltir o hyd, yn dechrau yn Aberhonddu ac yn gorffen yng Nghaerdydd, ac mae rhan ohoni'n mynd trwy'r parc.

Mae rhan yma'r parc o dan ffordd brys ac yn cynnig golygfa dda o'r afon. Beth ydych chi'n gallu ei weld?

TAFF TRAIL

The 55 mile Taff Trail starting in Brecon and finishing in Cardiff goes through the park.

This part of the park goes under a busy road and has a good view of the river. What can you see?

PARTH GWYLLT

Mae'r ardal yma'n llawn blodau gwyllt sy'n blodeuo drwy gydol y flwyddyn, gan ddenu peillwyr fel gwenyn, glöynnod byw a gwyfynod.

Beth am edmygu'r lliwiau a gwranddo ar yr afon gyfagos?

WILDZONE

This area is filled with wildflowers that bloom throughout the year, attracting pollinators like bees, butterflies, and moths.

Why not stop to admire the colours and listen to the nearby river?

GARDD ISEL YN Y DULL EIDALAIDD

Mae'r ardal yma'n coffáu rhan ganolog Cronfa Les y Glowyr yng ngwaith sefydlu'r Parc Coffa yma.

Mae'r planhigion yma'n fannau perffaith ar gyfer gweld bwystfild bach! Sawl creadur mae modd i chi ei weld?

ITALIAN-STYLE SUNKEN GARDEN

This area remembers the important role the Miners' Welfare Fund had in providing this War Memorial Park.

The plant life here is perfect for spotting mini beasts! How many creatures can you spot?

Hanes Dwy Afon

Wyddoch chi fod dwy afon yn cwrdd ger pont droed y de? Dyma lle mae Afon Rhondda yn ymuno ag Afon Taf, sy'n golygu mai Pontypridd yw porth Cymoedd y Rhondda!

Mae Afon Taf yn amgylchynu dwy ochr y parc, bron fel cwtsh mawr. Tybed ai dyna'r rheswm dros gynnwys "ynys" yn yr enw?

A Tale of Two Rivers

Did you know that two rivers meet near the southern footbridge? This is where the River Rhondda joins the River Taff, making Pontypridd the gateway to the Rhondda Valleys!

The Taff wraps around two sides of the park, almost like a big hug. Maybe that's why the park's name includes the Welsh word "ynys" which means island!

Diolch am alw heibio – bydden ni wrth ein boddau'n clywed am eich ymweliad!

Rhannwch eich atgofion, ymunwch
â'n hachlysuron, a chadwch mewn
cysylltiad â ni ar gyfryngau
cymdeithasol, trwy ymweld â'n
gwefan neu anfon e-bost aton ni.

Thank you for visiting – we'd love to hear about your visit!

Share your memories, join our events,
and stay connected with
us on social media, by visiting our
website or emailing us.

CalonTaf@rctcbc.gov.uk

   **CalonTaf**



Gobeithio eich bod
wedi mwynhau archwilio
ein parc bendigedig!
Os oeddech chi wrth eich
bodd â'r llwybr yma, beth am
roi cynnig ar ein Llwybr
Trefnadaeth neu Lwybr Coed?
Ewch i Ganolfan Calon Taf i nôl
taflen am ddim neu ei
lawrlwytho o'n gwefan.

CalonTaf.co.uk 

We hope you've enjoyed
exploring our wonderful park!
If you loved this trail, why not
try our Heritage or Tree Trail?
You can pick up a free leaflet
from Calon Taf or download
it from our website.

Beth sydd ar y gweill gyda chi?

I gael syniadau ac ysbrydoliaeth am
lefydd yn Rhondda Cynon Taf i fwyta,
aros neu ymweld â nhw, ewch i...

www.croesorhct.cymru

Wondering what to do next?

For ideas & inspiration on places to
visit, eat or stay in Rhondda Cynon Taf
check out...

www.visitrct.wales   

53163-22 • 2025

